Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn gwella eich ardal leol?

Mae Cyngor Cymuned Llandwrog eisiau eich barn a'ch syniadau.

Pam llenwi'r holiadur?

Mae Cyngor Cymuned Llandwrog yn awyddus i glywed eich barn a'ch awgrymiadau am sut y gellir gwneud gwelliannau i'r ardal. Rydym bob amser yn agored i syniadau ar gyfer prosiectau newydd sydd yn bwysig i'r gymuned.

Rydym hefyd yn cydnabod bod lle i ddatblygu sut rydym yn rhannu gwybodaeth a chyfathrebu gyda'r gymuned, ac yn awyddus i dderbyn eich syniadau am y sut gellir gwneud hynny.

Sut i gwblhau'r holiadur?

Dyddiad cau'r holiadur ydy 31 Mawrth 2019. Bydd yn cymryd tua 5 munud i'w gwblhau, gallwch wneud hynny drwy:

- Gwblhau'r fersiwn bapur sydd wedi ei hamgáu a'i hanfon yn ôl yn yr amlen Rhadbost **NEU**
- Gwblhau holiadur ar-lein drwy **https://www.smartsurvey.co.uk/s/cyngorllandwrog/**

Nid oes angen rhoi enw na chyfeiriad ar yr holiadur. Gall mwy nag un gael ei lenwi fesul cartref, rydym yn awyddus i glywed gan amrywiaeth o oedrannau.

Os hoffech ragor o gopïau papur, plîs cysylltwch gyda:

David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid Cyngor Cymuned Llandwrog
ffôn: **01286 881920 / 07796024288**, e-bost: **gwybodaeth@llandwrog.org**
Bydd hefyd modd lawrlwytho fersiwn pdf oddi ar safle gwe'r Cyngor ar **www.llandwrog.org**

Beth mae Cyngor Cymuned Llandwrog yn ei wneud?

Mae Cyngor Cymuned Llandwrog yn gwasanaethu'r pentrefi canlynol - Dinas Dinlle, Llandwrog, Tŷ'n Lôn, Bethesda Bach, Y Groeslon, Dolydd, Maestryfan, Carmel, Cilgwyn, Y Bryn, Y Fron.



Mae Cynghorau Tref a Chymuned fel Cyngor Cymuned Llandwrog yn cynrychioli cymunedau unigol o fewn y Sir a gyda cyfrifoldebau statudol. Mae Cyngor Cymuned Llandwrog yn darparu neu gyflawni nifer o wasanaethau, gan gynnwys:

1. **Cynnal llwybrau cyhoeddus**
2. **Gweithredu fel Awdurdod Claddu trwy gynnal a rheoli 3 mynwent (Carmel, Llandwrog ac Bryn'rodyn)**
3. **Cynnal a chadw 2 gae pêl-droed / cae cymunedol**
4. **Trafod a chyflwyno sylwadau i Gyngor Gwynedd ar geisiadau cynllunio**
5. **Darparu adnoddau fel llochesi bws a goleuadau stryd**
6. **Cyfrannu cyllid tuag at gynnal toiledau cyhoeddus Dinas Dinlle ar gyfer 2019/20**
7. **Rhoi grantiau ariannol yn flynyddol i fudiadau a chymdeithasau**
8. **Arwain neu gymryd rhan mewn prosiectau lleol sydd o fudd i'r gymuned**
9. **Cynrychioli'r gymuned a gweithredu er budd a lles trigolion.**

Mae'n ofyn statudol bod y Cyngor Cymuned yn cyflogi Swyddog sydd yn gyfrifol am reolaeth ariannol, gweinyddu a gweithredu ar faterion ar ran y Cyngor Cymuned.

O ble daw arian y Cyngor Cymuned?

Mae canran fechan o Dreth Cyngor pob cartref yn cael ei dyrannu i Gynghorau Cymuned a Thref fel 'praesept' blynyddol. Mae cyfran fawr o'r praesept blynyddol yn mynd at bethau y mae'n rhaid eu hariannu (e.e. cynnal mynwentydd, llwybrau cyhoeddus, cynnal asedau ayb). Defnyddir gweddill y praesept i ariannu cynlluniau o fewn y gymuned ac i ddyrannu grantiau blynyddol. Mae cyfanswm cyllideb Cyngor Cymuned Llandwrog oddeutu £55,000 y flwyddyn.

Pwy yw Aelodau'r Cyngor Cymuned?

Mae gan y Cyngor Cymuned 14 sedd mewn 4 ward. Mae'r Cynghorwyr Cymuned yn drigolion lleol ac yn cyfarfod yn fisol. Ceir rhestr o Aelodau'r Cyngor Cymuned, agenda a chofnodion cyfarfodydd o safle gwe Cyngor Cymuned Llandwrog **www.llandwrog.org**.

Beth a wneir gyda'r wybodaeth o'r holiadur?

Ar ôl y dyddiad cau bydd y Cyngor Cymuned yn mynd ati i ddadansoddi'r wybodaeth a llunio adroddiad. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth ar gyfer y canlynol:

- Blaenoriaethu gwariant a defnydd o'r gyllideb ar gyfer y blynyddoedd nesaf
- Adnabod prosiectau sydd yn bwysig i'r gymuned
- Gwella trefniadau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth gyda'r gymuned

Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd **Mai 2019** a'i rannu drwy wahanol ddulliau, megis safle gwe, Facebook, papurau lleol a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus yn y pentrefi.